





Cynnwys

Gweithgaredd	Tudalen
Cwis 1	3
Pâr Enghraifft – Ymarfer 1	4–5
Cwis 2	6
Sialens Diagram Venn 1	7
Pâr Enghraifft – Ymarfer 2	8–9
Cwis 3	10
Cownteri Mewn Bag	11
Pâr Enghraifft – Ymarfer 3	12–13
Cwis 4	14
Sialens Diagram Venn 2	15
Pâr Enghraifft – Ymarfer 4	16–17
Cwis 5	18
Y Logo Trionglog	19



Cwis 1



1) $\frac{2}{7} + \frac{3}{7}$

2) $\frac{2}{7} \times \frac{3}{7}$

3) $1 - \frac{3}{7}$

4) $0.2 + 0.3$

5) 0.2×0.3

6) $1 - 0.3$

7) $25\% + 10\%$

8) $25\% \times 10\%$

9) $1 - 10\%$

allan o 9



Enghraifft 1



Cyfrifwch faint yr ongl fewnol mewn unrhyw nonagon rheolaidd.

Cyfanswm yr onglau mewnol

$$= 180^\circ (n - 2)$$

$$= 180^\circ (9 - 2)$$

$$= 180^\circ \times 7$$

$$= 1260^\circ$$

$$\begin{array}{r} 180 \\ \times 7 \\ \hline 1260 \end{array}$$

Un ongl fewnol nonagon rheolaidd

$$= 1260^\circ \div 9$$

$$= \underline{\underline{140^\circ}}$$

$$\begin{array}{r} 0140 \\ 9 \overline{) 1260} \end{array}$$

NEU

$$\text{Un ongl allanol} = 360^\circ \div 9$$

$$= 40^\circ$$

$$\text{Un ongl fewnol} = 180^\circ - 40^\circ$$

$$= \underline{\underline{140^\circ}}$$



Ymarfer 1



Cyfrifwch faint yr ongl fewnol mewn unrhyw ddecagon rheolaidd.

A large grid of blue lines on a white background, intended for students to write their solution to the problem. The grid is enclosed in a dashed black border.



Cwis 2




1) Rhestrwch holl ffactorau 30.

2) A yw'r rhif $3^4 \times 5^2 \times 7^6$ yn rhif sgwâr?

3) Datryswch $3x - 4 = 23$

4) A yw'r isod yn rhwyd ar gyfer ciwb?



5) Beth yw modd y rhifau 5, 2, 9, 4, 6, 1, 4, 9, 5, 2, 7, 9?

6) Symleiddiwch $2a + 6b + 4a - 2b$

7) Beth yw'r arwynebedd?


6 cm



2 cm

8) Beth yw'r perimedr?

6 cm




2 cm

9) Beth yw cyfaint ciwb efo ymylon 4 cm?

allan o 9




Sialens Diagram Venn 1



Mae bag yn cynnwys 10 o beli coch, gwyrdd a gwyn – ond faint o bob lliw? Llenwch y manylion isod, ac os ydych yn meddwl bod rhanbarth yn amhosibl i'w lenwi, eglurwch pam!












Enghraifft 2



Cyfrifwch faint yr onglau \widehat{ABC} ag \widehat{ADC} .




Mae'r ongl yng nghanol cylch yn ddwbl yr ongl ar y cylchyn felly $\widehat{ABC} = 96^\circ \div 2 = \underline{48^\circ}$

Mae onglau cyferbyn pedrochr cylchol yn adio i 180° felly $\widehat{ADC} = 180^\circ - 48^\circ = \underline{132^\circ}$

Ymarfer 2

Cyfrifwch faint yr onglau $D\hat{A}B$ a $D\hat{O}B$.





Cwis 3



1) Rhannwch £48 rhwng Deio a Cai yn ôl y gymhareb 5 : 3.

2) Beth yw cilydd 7?

3) Beth yw'r fformiwla ar gyfer cyfrifo arwynebedd cylch?

4) Beth yw *n*fed term y dilyniant 9, 11, 13, 15, ...?

5) Canolrif 9, 2, 1, 6, 8


6) Datrysych $\frac{x}{2} + 1 = 7$

7) Ehangwch $4(x - 4)$


8) 10^2

9) $5 - 2.67$

— allan o 9



Cownteri Mewn Bag



Mae Myrddin efo rai cownteri mewn bag. Mae 3 o'r cownteri'n goch, ac mae 7 o'r cownteri'n las. Mae gweddill y cownteri'n lliw gwyrdd.

Mae Myrddin yn dewis un cownter o'r bag ar hap.

Y tebygolrwydd bod cownter Myrddin yn wyrdd yw $\frac{2}{7}$.

Beth allwch ei gyfrifo o'r wybodaeth yma?



Enghraifft 3



Darganfyddwch *n*fed term y dilyniant 4, 15, 30, 49, 72.

Ail Wahaniaeth

+4 +4 +4

Gwahaniaeth Cyntaf

+11 +15 +19 +23

Dilyniant Gwreiddiol

4, 15, 30, 49, 72

$$4 \div 2 = 2$$

n^2

1, 4, 9, 16, 25

$2n^2$

2, 8, 18, 32, 50

Dilyniant $-2n^2$

2, 7, 12, 17, 22

+5 +5 +5 +5

+5 +5 +5 +5

*N*fed term y dilyniant llinol yw $5n - 3$

*N*fed term y dilyniant cwadrateg yw

$$\underline{2n^2 + 5n - 3}$$



Cwis 4




1) Ysgrifennwch yr amser 9:45 pm gan ddefnyddio'r cloc 24 awr.	2) Pa fath o ongl yw'r ongl 175° ?	3) 5^3
4) Cymedr 9, 7, 1, 7, 6	5) Amrediad 9, 7, 1, 7, 6	6) Beth yw'r enw ar unrhyw driongl sydd efo union 2 ongl yn hafal?
7) 0.037×10	8) Ysgrifennwch un miliwn mewn ffigurau.	9) Cyfrifwch 30% o £80.

— allan o 9



Sialens Diagram Venn 2



Mae bag yn cynnwys 10 o beli coch, gwyrdd a gwyn – ond faint o bob lliw? Llenwch y manylion isod, ac os ydych yn meddwl bod rhanbarth yn amhosibl i'w lenwi, eglurwch pam!



Enghraifft 4



Mae awyren yn teithio 192 o filltiroedd mewn 24 munud.
Pa mor bell y teithiodd mewn 10 munud?

Amser

24 munud

$\div 12$

2 funud

$\times 5$

10 munud

Pellter

192 milltir

$\div 12$


16 milltir

$\times 5$

80 milltir

**Ymarfer 4**

Màs llinyn sydd â'i hyd yn 24 metr yw 288 gram.
Beth yw màs 17 metr o'r llinyn?



allan o 2



Cwis 5



1) $8 + -2$

2) $8 - -2$

3) 8×-2

4) $-8 \div 2$

5) -8×-2

6) $-8 + 2$

7) $-8 - 2$

8) $8 \div -2$

9) 8^2

allan o 9




Y Logo Trionglog



1) Beth yw sail ag uchder un o'r trionglau melyn?

2) Beth yw arwynebedd un o'r trionglau melyn?



3) Beth yw hyd hypotenws un o'r trionglau melyn?

4) Beth yw perimedr y logo trionglog?

allan o 8

Adolygu'r Pecyn



Nodiadau



@mathemateg



/adolygumathemateg



/mathscreuddyn



www.mathemateg.com